

23 Tachwedd 2023

Dylunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru

Comisiwn Dylunio Cymru yn cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddarau, ar ddylunio ffermydd gwynt a solar yng Nghymru

Mae Comisiwn Dylunio Cymru wedi cyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer datblygu gosodiadau solar a gwynt ar y tir ar raddfa fawr yng Nghymru.

Mae *Dylunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru* yn disodli ac yn helaethu'r canllawiau blaenorol, sef *Dylunio Ffermydd Gwynt yng Nghymru 2014*, a gyhoeddwyd hefyd gan Gomisiwn Dylunio Cymru. Mae'n adlewyrchu Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 ac mae'n mynd i'r afael â newidiadau diweddar yn y diwydiant ynni adnewyddadwy yng Nghymru, gan gynnwys cynnydd mewn tyrbinau gwynt a thwf mewn datblygiadau ynni solar.

Mae'r prif newidiadau'n cynnwys pwysleisio pa mor bwysig yw dylunio tirwedd yn greadigol i arwain y broses ddylunio, a symud oddi wrth ddull lliniaru i ddull sy'n cael ei arwain gan ddylunio. Bydd angen nawr i drefn tyrbinau neu araeau paneli solar gael ei ystyried yn ofalus fel her tirlunio, sy'n ystyried ffactorau amgylcheddol, diwylliannol a ffactorau esthetig yn ogystal â'r cyfyngiadau dylunio technegol a pheirianyddol.

Nid dogfen bolisi yw'r canllawiau newydd, ond fe fyddant yn berthnasol yn y prosesau pennu a phenderfynu sy'n cyd-fynd â chynigion datblygu ynni adnewyddadwy o wahanol raddfeydd a lleoliadau. Felly, fe fyddant yn cael eu defnyddio gan Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) a/neu Awdurdodau Lleol wrth iddynt adolygu, dylanwadu a phenderfynu ar geisiadau ynni gwynt a solar.

Dywedodd Carole-Anne Davies, Prif Weithredwr Comisiwn Dylunio Cymru: "Ers cyhoeddi ein dogfen '*Dylunio Ffermydd Gwynt yng Nghymru 2014*', mae'r cyd-destun deddfwriaethol yng Nghymru wedi newid, yn enwedig o ganlyniad i

gyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y diweddariadau i Bolisi Cynllunio Cymru, a chyflwyno Cymru'r Dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir yn *Cymru'r Dyfodol* fod rhaid i gynigion datblygu ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy o dechnolegau ac adnoddau gwynt neu solar, pan fyddant yn cael eu cyflwyno, ymateb yn dda i'w cyd-destun a chyfrannu at gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel.

"Pwrpas y ddogfen ganllaw newydd hon yw nodi'r prif amcanion ac ystyriaethau dylunio ar gyfer mynd ati mewn modd sensitif i ddatblygu gosodiadau solar a gwynt ar y tir ar raddfa fawr, yn ogystal â datblygiadau ategol yng Nghymru yng nghyd-destun y targedau uchelgeisiol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu faint o ynni a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy.

"Drwy ymgynghori â datblygwyr, grwpiau cymunedol, cyrff rheoleiddio a rhanddeiliaid statudol, rydym wedi gallu ystyried a throi at y polisi diweddaraf, newidiadau technolegol a'r gwersi a'r profiadau a gafwyd dros y degawd diwethaf. Bydd angen nawr i ddatblygwyr fynd ati'n ofalus i ddadansoddi hanes, ffurf, ecoleg a nodweddion golygfaol presennol y dirwedd, cyn ychwanegu, mewn modd ystyrlon, elfennau newydd sydd naill ai'n cyd-gordio neu'n gwrthgyferbynnu â'r hyn sydd eisoes yn bodoli.

"Yn bwysicach na dim, mae'r canllawiau newydd hyn wedi cael eu dylunio i fod yn ddefnyddiol, yn llawn gwybodaeth ac yn hygyrch i'r holl randdeiliaid, datblygwyr, gwneuthurwyr penderfyniadau a'r cyhoedd. Nid dogfen bolisi mohoni, ond mae'n nodi sut y gall dylunio tirwedd creadigol gefnogi'r gwaith o gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel."